**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 9 Ebrill 2018 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | E W Fitzgerald | L S Gibbard |
| D W Helliwell | T J Hennegan | C A Holley |
| P R Hood-Williams | B Hopkins | J W Jones |
| W G Lewis | I E Mann | G J Tanner |
| W G Thomas | | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | P R Hood-Williams | J W Jones |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Lyndsay Thomas | Swyddog Trwyddedu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): S E Crouch, M Durke, P K Jones, E J King a/ac M Sykes
Aelodau Cyfetholedig(wyr):

---

## 122 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 123 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 124 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2018 fel cofnod cywir.

## 125 Cwestiynau gan y cyhoedd.

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

**126 Sesiwn Holi Aelod y Cabinet: Aelod y Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol (Y Cynghorwyr June Burtonshaw a Mary Sherwood)**

Cyflwynodd Aelodau'r Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol adroddiad am y penawdau allweddol ar gyfer portffolio Cenedlaethau'r Dyfodol.

Er eglurhad, aelodau amgen o'r Cabinet oedd yn gyfrifol am rai o'r cyfrifoldebau a restrwyd dan bortffolio Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddai adroddiad Newidiadau Cyfansoddiadol i'r cyngor yn egluro hyn maes o law.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau ag Aelodau'r Cabinet yn canolbwyntio ar y canlynol:

Risg a Chydnerthu
- Mae wedi cael ei symud i bortffolio trawsnewid gwasanaethau a gweithrediadau busnes, fodd bynnag, roedd Aelodau'r Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol yn gyfrifol am asesu risgiau fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ac asesiadau risg yn cael eu hadolygu er mwyn canolbwyntio ar atal. Nid oedd llawer o risgiau corfforaethol ond roeddent yn rhai lefel uchel ac yn trawstorri mwy nag un gyfarwyddiaeth, felly byddai pob adran yn rhan o hyn.
- Mynegwyd pryder gan Aelodau'r Cabinet ynghylch risg amgylcheddol, gan gynnwys:
    - Pwysigrwydd gwella bioamrywiaeth;
    - Plannu coed newydd yn lle rhai a dorrwyd lle bynnag y bo modd;
    - Roedd gwaith yn parhau i symud tuag at ymagwedd fwy cynaliadwy at ymdrin â chwyn megis grwpiau gwirfoddol i gynorthwyo wrth symud chwyn â llaw yn hytrach na defnyddio plaleiddiaid/chwynladdwyr;

Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol
- Fel rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe (BGC), roedd y cyngor yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus megis Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru etc. i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gyflawni'r nodau llesiant. Roedd y Cynllun Lles wedi'i gymeradwyo'n ddiweddar gan y BGC ac roedd yn y broses o gael ei gymeradwyo gan yr aelodau statudol unigol. Byddai cymeradwyaeth yn cael ei cheisio yng nghyfarfod y cyngor ar 26 Ebrill 2018;

Cynnwys
- Ar hyn o bryd, mae yn y broses o gomisiynu adroddiadau o bob adran yn yr awdurdod er mwyn gwella dulliau cynnwys y gymuned yn gyffredinol. Croesawodd Aelodau'r Cabinet gymorth y tîm craffu yn hyn o beth drwy ofyn iddo'i ystyried fel testun i graffu arno yn y dyfodol.
- Mae Diwygio Lles/Credyd Cynhwysol (sydd bellach yn rhan o'r portffolio Gwrthdlodi) yn broblem o hyd, ond mae gwaith yn parhau i gynorthwyo'r rhai y mae'n effeithio arnynt;

Canolfannau Maestrefol a Mentrau Adfywio Cymunedol
- Cymerir ymagwedd gyd-gynhyrchiol at ddatblygu canolfannau cymunedol mewn rhai ardaloedd. Gyda hyn, cyd-leolir gwasanaethau cyhoeddus, preifat a rhai a arweinir gan y gymuned. Edrych ar ardaloedd peilot ym Mlaen-y-maes, Clydach a Townhill;

Cynllun Cyllidebau Cymunedol Aelodau

- Mae'r broses yn cael ei hadolygu, ond atgoffwyd cynghorwyr fod yn rhaid i geisiadau fynd yn syth at y swyddog enwebedig, sef Jayne Hunt, ac nid drwy adrannau unigol.

Cynghorwyr Hyrwyddwyr

- Eglurwyd bod Cynghorwyr Hyrwyddwyr yn darparu llais ar gyfer grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli'n draddodiadol, neu faterion y dylid parhau i roi blaenoriaeth iddynt ym musnes y cyngor.

Blaenoriaethau Aelodau'r Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol yn y dyfodol:

- Creu ymagwedd gwirioneddol gydweithredol â'n partneriaid i gyflawni'r nodau lles fel rhan o'r Cynllun Lles mewn ffordd gydlynol drwy ddarparu gwasanaethau yn ôl yr hyn y mae ei angen ar bobl Abertawe, neu'r hyn maent am ei gael.
- Rhoi blaenoriaeth i'r amgylchedd naturiol oherwydd teimlwyd ei fod wedi'i esgeuluso. Roedd tystiolaeth y gallai'r amgylchedd a mannau gwyrdd agored helpu i leihau cyfradd curiad y galon a phryder, gan olygu y byddai pobl yn llai tebygol o fod ag angen ymyriad meddygol. Roedd cyfraddau marwolaeth uwch na'r gyfradd sy'n gysylltiedig â smygu lle'r oedd llai o wyrddni a mwy o lygredd.
- Er mwyn gwreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhob adran a'i hystyried yn ystyrlon ym mhob adroddiad i'r Cabinet/cyngor.
- Bod y tîm craffu'n hefyd yn ystyried 'Atal' fel testun craffu yn y dyfodol o ystyried bod Strategaeth Atal newydd wedi'i chymeradwyo'n ddiweddar.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod(au) y Cabinet, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

**127 Adroddiadau Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad:**

Fel Cynullydd y panel, cyflwynodd y Cynghorydd Jeff Jones adroddiad am gynnydd y Panel Perfformiad Datblygu ac Adfywio.

Roedd y panel wedi cwrdd ar dri achlysur ac fel panel newydd, mae wedi bod yn ceisio cael trosolwg o'r darlun datblygu ac adfywio yn Abertawe ac yn casglu gwybodaeth am brosiectau penodol.

Roedd y panel yn gobeithio cynnwys yr eitemau canlynol yn rhaglen waith y flwyddyn nesaf, gan ganolbwyntio ar:

- Barthau Menter a Pharciau Busnes Abertawe;
- Cynllunio a Llety i Fyfyrwyr;
- Bargen Ddinesig;
- Datblygiadau tai yn Abertawe;
- SA1.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

**128 Aelodaeth paneli a gweithgorau craffu.**

ddeddfwriaeth, y bydd cynrychiolydd o'r Eglwys yng Nghymru, sef Mr John Meredith, yn cael ei benodi i gymryd rhan yn y broses craffu ar addysg ac y byddai'n ymuno â'r pwyllgor ym mis Mai. Byddai gwybodaeth ychwanegol ynghylch penodi Rhieni-lywodraethwyr yn cael ei darparu yn y cyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r diwygiadau canlynol:

1) Ychwanegu'r Cynghorwyr Sam Pritchard a Will Thomas at y Panel Ymchwilio i'r Amgylchedd Naturiol;
2) Ychwanegu'r Cynghorydd Hazel Morris at y Panel Perfformiad Ysgolion.

## 129 Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad chwarterol drafft gan y pwyllgor am effaith craffu a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r cyngor.

Diben yr adroddiad oedd dangos cyflawniadau a chanlyniadau craffu a'r effaith a'r gwahaniaeth a wnaed.

**Penderfynwyd** cytuno ar gynnwys yr Adroddiadau Craffu drafft a'u cyflwyno i'r cyngor ar 26 Ebrill 2018.

## 130 Rhaglen Waith Craffu 2017/18.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad er mwyn adolygu cynnydd y rhaglen waith craffu gytunedig ar gyfer 2017/18. Amlygwyd y byddai Aelod y Cabinet dros Gyfleoedd Masnachol ac Arloesedd yn bresennol yn sesiwn holi ac ateb nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu. Anogwyd y pwyllgor i feddwl am gwestiynau posib ynghylch portffolio newydd y Cabinet.

Hysbysodd aelodau'r pwyllgor hefyd y byddai Gweithdy Gwella a Datblygu'n cael ei gynnal ar 3 Mai am 4.30pm i ystyried canfyddiadau o'r arolwg craffu blynyddol i gynghorwyr a chamau gweithredu posib mewn perthynas â phroses ac arfer yn y dyfodol.

Atgoffwyd aelodau hefyd na fyddai cyfarfod pwyllgor ychwanegol ar 16 Ebrill ar gyfer craffu cyn penderfynu gan na fyddai'r adroddiad buddiannau am yr ail gynllun Mwy o Gartrefi ym Mharc-yr-Helyg yn cael ei ystyried bellach yng nghyfarfod y Cabinet ar 19 Ebrill.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 131 Llythyrau craffu.

Rhoddodd y Cynghorydd Sam Pritchard, Cynullydd, y diweddaraf i'r pwyllgor am y gwaith a wnaed gan y Gweithgor Cynnal a Chadw Ffyrdd a Throedffyrdd. Amlygodd y materion a godwyd yn y llythyr at Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Amgylchedd yn dilyn cyfarfod y Gweithgor ar 31 Ionawr 2018, a'r ymateb dilynol gan Aelod y Cabinet, dyddiedig 14 Mawrth 2018, i'r argymhellion a wnaed.

Dywedodd y Cynghorydd Pritchard ei fod yn fodlon ar ymateb Aelod y Cabinet a'r camau gweithredu cytunedig. Pwysleisiodd y Cynullydd farn y Gweithgor y gallai'r pwnc hwn, sydd o fudd i'r cyhoedd, fod yn destun mwy o waith manwl yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** nodi'r llythyrau**.**

**132 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio (Er Gwybodaeth).**

**Nodwyd** Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio.

**133 Dyddiad ac amser cyfarfodydd paneli/gweithgorau sydd ar ddod.**

**Nodwyd** dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

**Llythyr at Aelod y Cabinet - Sesiwn Holi ac Ateb**

Daeth y cyfarfod I ben am 5.34 pm

**Cadeirydd**